LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

# HYRWYDDO ELUSENNAU BYCHAIN OND HANFODOL

## MAE ELUSENNAU BYCHAIN WRTH WRAIDD CYMUNEDAU A'R YMDRECH I DRECHU ANFANTAIS HEDDIW.

**Darganfyddwch sut y gallwch chi gymryd camau i gefnogi elusennau yn eich bro.**



**Os gofynnwch i'r rhan fwyaf o bobl enwi elusen maent yn debygol o ddewis enw cyfarwydd. Ond mae'r mwyafrif o elusennau sy'n gweithio yn ein cymunedau lleol yn rhai bychain a lleol.**

A hwythau â phrin dim arian, neu ddim o gwbl, i hysbysebu na marchnata efallai nad ydych hyd yn oed yn gwybod amdanynt ond mae'r elusennau hyn yn cael effaith enfawr ar gymdeithas, gan weithio â rhai o'r bobl sydd dan yr anfantais a'r perygl mwyaf yn ein cymunedau.

Er bod ar fwy o bobl angen y cymorth lleol hanfodol y mae elusennau bychain yn ei ddarparu, maent yn wynebu gostyngiad sylweddol yn yr arian maent yn ei gael gan lywodraeth ganolog a lleol. Mae cynghorau yn symud yn gynyddol i ffwrdd oddi wrth grantiau a thuag at gontractau mawrion am wasanaethau cyhoeddus y mae elusennau bychain yn llai tebygol o'u hennill.

Mae elusennau bychain yn hanfodol i ddod â chymunedau at ei gilydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Oni ddiwygir arferion contractio a chomisiynu i alluogi i elusennau bychain ennill contractau sector cyhoeddus, mae perygl mawr iawn na fydd llawer yn gallu goroesi.

## Helpwch ni i hyrwyddo rôl elusennau bychain #smallbutvital

> "Mae mudiadau lleol bychain yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra'n well ac maent yn cadw'r elfen bersonol sy'n hynod o bwysig o ran cydnerthedd ac ymddiriedaeth y gymuned."

# Beth allaf ei wneud i gefnogi elusennau bychain?




**Isod, nodir camau syml ac ymarferol y gallwch eu cymryd i ddechrau cefnogi'ch elusennau lleol. Gyda'n gilydd, gallwn a dylem helpu elusennau bychain nid yn unig i oroesi, ond i ffynnu.**

## Os ydych yn berson neu'n fusnes lleol gallwch wneud y canlynol:

- ✓ Darganfod am yr elusennau bychain yn eich cymuned leol
- ✓ Rhoi arian i elusen fechan yn eich ardal leol
- ✓ Siarad â'ch elusen leol ynglŷn â mathau eraill o gymorth maent ei angen neu ffyrdd y gallwch helpu

## Os ydych yn gynghorydd etholedig gallwch wneud y canlynol:

- ✓ Ymweld ag elusennau bychain a lleol i ddeall y bobl maent yn eu helpu, eu gwaith a'r hyn sy'n eu hwynebu
- ✓ Cwestiynu arferion comisiynu lleol i sicrhau eu bod yn rhoi siawns deg i elusennau bychain
- ✓ Sicrhau y clywir llais elusennau lleol wrth i gynghorau ddylunio polisïau a gwasanaethau a gwneud penderfyniadau yn eu cylch

## Os ydych yn gyngor lleol, yn Fwrdd Iechyd Lleol neu'n Gomisiynydd Heddlu a Throseddu gallwch wneud y canlynol:

- ✓ Gweithio gydag elusennau lleol i ddeall yn well gyda phwy maent yn gweithio, y gwasanaethau sydd eisoes yn eich ardal a dysgu o'u harbenigedd ynghylch pa gymorth sydd ei angen
- ✓ Sicrhau bod unrhyw broses gomisiynu yn dryloyw a bod maint y contract a'r prosesau yn gymesur â'r canlyniad rydych yn ceisio ei gyflawni, er mwyn rhoi siawns deg i elusennau bychain lwyddo
- ✓ Defnyddio grantiau ble bynnag y bo modd

## Os ydych yn gweithio yn Llywodraeth Cymru gallwch wneud y canlynol:

- ✓ Gosod targed mesuradwy i gomisiynwyr weithio gydag elusennau bychain
- ✓ Cefnogi comisiynwyr i ddylunio prosesau a fydd yn rhoi siawns deg i elusennau bychain a lleol i ennill contractau drwy arweiniad, arfer gorau ac arweinyddiaeth
- ✓ Gwella tryloywder comisiynu a chadwyni cyflenwi a herio arfer gwael

## Os ydych yn ymddiriedolaeth neu'n sefydliad gallwch wneud y canlynol:

- ✓ Darparu cyllid craidd, hirdymor i elusennau bychain a lleol
- ✓ Sicrhau bod eich prosesu ymgeisio ac adrodd yn gymesur
- ✓ Ystyried cynnig cymorth arall i gryfhau elusennau bychain a lleol

**#smallbutvital**

> “ DYDW I DDIM EISIAU MEDDWL BLE Y BYDDWN I HEB VOICES, OND FE FYDDAI’N SEFYLLFA WAETH O LAWER. MAENT YN GWNEUD I MI DEIMLO FY MOD YN WERTH RHYWBETH A PHE NA BAWN I WEDI DOD YMA NI FYDDAI GEN I DDIM BYD I YMFALCHÏO YNDDO, NA PHRIN DIM PWRPAS. ”

**Dan**
Defnyddiwr Gwasanaeth
Voices from Care, Caerdydd



# Pam y dylwn i falio am elusennau bychain?

Mae elusennau bychain wrth wraidd cymunedau lleol ac maent yn gweithio’n ddiflino i gefnogi pobl i wireddu eu potensial. Os yw rhywun yn wynebu digartrefedd, maent yn eu helpu i ddod o hyd i gartref. Os yw rhywun yn dianc rhag partner sy’n eu cam-drin, maent yn cynnig noddfa. Os yw rhywun heb waith, maent yn eu helpu i ddod o hyd i gyflogaeth.

**Os oes problem ac angen mewn cymuned leol, mae’n debygol bod elusen fechan yno i helpu.**

Mae elusennau bychain yn cael eu cynnal gan staff a gwirfoddolwyr llawn angerdd a brwdfrydedd sy’n gweithio ddydd ar ôl dydd mewn amgylchiadau anodd heb fawr o wobr. Maent yn arbenigwyr yn yr hyn y mae ar bobl leol ei angen a sut i’w cyrraedd gan eu bod yn hanu o’r un cymunedau hynny. Maent yn cael eu datblygu gan y gymuned ac ar gyfer y gymuned gan ddod â phobl at ei gilydd i wirfoddoli a chodi arian.

Yr hyn sy’n gwneud elusennau bychain mor arbennig yw’r ffordd maent yn deall sut i estyn llaw at bobl leol, eu cynnwys a’u grymuso, ac adeiladu cydnerthedd yn y gymuned.

Mae’r bobl sydd angen elusennau bychain yn ymddiried ynddynt, ac mae’r elusennau hynny yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gwerthfawr i’r rheini sydd heb unlle arall i fynd. Eu hunig ffocws yw’r bobl maent yn eu cefnogi. Nid ydynt yn malio am dyfu eu cyfran yn y farchnad. Yn hytrach eu nod yw gwneud gwahaniaeth ym mywydau pobl.

A hwythau’n fudiadau hyblyg ac ystwyth, gall elusennau bychain ddatblygu gwasanaethau newydd yn gyflym mewn ymateb i anghenion lleol wrth iddynt newid ac yn aml yn gynt nag eraill sy’n darparu gwasanaethau, hyd yn oed elusennau mwy o faint.

**Gall elusennau bychain weithio gyda phobl mewn ffordd bersonol a chyfannol, gan gynnig rhywbeth pwrpasol.**

> “ Yr elusennau llai hynny, sydd wrthi ar lawr gwlad yn diwallu anghenion pobl sydd fwyaf ar yr ymylon, sydd bob amser mewn perygl. ”

**Mae 97% o elusennau yng Nghymru yn goroesi ar incwm llai na £1m y flwyddyn a’r mwyafrif helaeth ar lawer llai na hynny.**

*Troednodyn: Er dibenion y pamffled hwn, rydym yn defnyddio ‘elusennau bychain’ i ddisgrifio’r rheini ag incwm blynyddol rhwng £10,000 a £1m.*

> DOES DIM PROBLEM BYTH YN RHY FAWR AC MAE POB AELOD O STAFF DWI WEDI SIARAD Â NHW BOB AMSER WEDI GWNEUD I MI SYLWEDDOLI BOD CYFLEOEDD I WELLA, TYFU A DATBLYGU SGILIAU NEWYDD YN AGORED I BAWB.

**Defnyddiwr gwasanaeth**
KIM Inspire
Gogledd Cymru




# Beth sy'n digwydd i elusennau bychain?


Mae'r galw am y cymorth y mae elusennau bychain yn ei ddarparu yn tyfu. Dywedodd 89%[1] o elusennau yng Nghymru wrthym eu bod yn gweld newid yn y galw wrth i fwy o bobl, â phroblemau mwy cymhleth, fod angen eu cymorth. Ond mae'r arian sydd ganddynt i gefnogi pobl yn prinhau. Roedd llawer o elusennau bychain yn arfer cael rhan fawr o'u cyllid drwy grantiau llywodraeth leol yn gydnabyddiaeth o'r gwasanaethau lleol hanfodol maent yn eu darparu. Ond nid felly mohoni bellach wrth i lywodraeth a chynghorau symud yn gynyddol i ffwrdd oddi wrth arian grant am wasanaethau cyhoeddus a thuag at gontractau mawrion, sy'n anodd iawn i elusennau bychain gystadlu'n deg amdanynt a'u hennill.

Mae gan elusennau llai yr hyblygrwydd i allu gweithio'n uniongyrchol gydag unigolion sydd dan anfantais mewn ffordd sydd wedi'i theilwra a'i thargedu. O ran mudiadau mwy, sy'n gweithredu contractau mawrion ac sydd angen gweithio ar raddfa benodol, gall fod yn anos iddynt deilwra'r hyn maent yn ei ddarparu yn y ffordd hon. Gallai cynigion gwasanaeth safonol ddod gyda phris safonol ond mae'n bosib na fyddent yn gallu darparu'r cymorth penodol y gall fod ar unigolyn ei angen.

Mae comisiynwyr yn dechrau sylweddoli nad contractau mawrion sydd orau bob amser ond weithiau sylweddolir hyn yn rhy hwyr i elusennau bychain. Os yw elusen fechan yn colli ei harian grant ac yn methu ag ennill y contract awdurdod lleol, er gwaethaf ei hymdrechion gorau i godi arian o ffynonellau eraill, mae perygl y bydd yn cau. Golyga hyn y bydd ei gwasanaethau, ei harbenigedd, ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o bobl a'r gymuned leol yn cael eu colli.

> Mae'r newid tuag at dendro a chomisiynu cystadleuol yn golygu prosesau cymhleth a llafurus sy'n ein tynnu i ffwrdd oddi wrth gefnogi pobl mewn angen.

**Lynn Howells**
Rheolwr
Eiriol




**Mae arian grant Llywodraeth Cymru i'r sector wedi gostwng mwy na 40% mewn pum mlynedd, tra mae contractau wedi cynyddu 64%.**

Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector 2016, WCVA

---

[1] *Expert Yet Undervalued and on the Front Line. Sefydliad Lloyds Bank Cymru a Lloegr, 2015*



> MAE ELUSENNAU BYCHAIN A LLEOL YN GWNEUD CYFRANIAD NEILLTUOL AT GYMUNEDAU LEDLED CYMRU OND MAENT YN EI CHAEL YN ANODD GOROESI. ONI WEITHREDWN NAWR, BYDD YR ELUSENNAU HYN YN DOD I BEN A BYDD POBL LEOL YN COLLI'R CYMORTH MAE ARNYNT EI ANGEN YN DAER

**Mike Lewis**
Rheolwr Grantiau Cymru, Sefydliad Lloyds Bank Cymru a Lloegr

# Mae'n enbyd ar elusennau bychain heddiw

Mae elusennau bychain yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r trafferthion maent yn eu hwynebu ac yn gwneud popeth yn eu gallu i lenwi'r bwlch yn eu hincwm ond maent yn ei chael yn anodd cadw i fynd.

Mae Inroads wedi bod yn cefnogi pobl i leihau eu dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol yng Nghaerdydd a'r Fro ers 18 mlynedd ac roedd yn arfer cael cyllid gan y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Yn 2015, penderfynodd yr awdurdod i gomisiynu'r gwasanaethau hyn yn lle dyfarnu grantiau. Nid yn unig y bu i Inroads ysgrifennu'r fanyleb ond anogwyd yr elusen i ffurfio consortiwm er mwyn ymgeisio. Ac eto dyfarnwyd y contract i un darparwr mawr a oedd wedi gweithio yn flaenorol yn y system cyfiawnder troseddol, nid gyda gwasanaethau cyffuriau ac alcohol lleol yn yr ardal. Collodd yr elusen ei grant a throsglwyddwyd ei gwasanaeth i'r darparwr newydd ynghyd â 75% o'i staff a darpariaeth swyddfeydd.

> **Roeddem yn darparu cymorth cyfannol a phersonol i'r rheini â dibyniaethau dyfnion, hirdymor ond nid yw'r gwasanaeth newydd yn gweithio yn y ffordd hon. Mae ein harbenigedd yn cael ei ddatgymalu'n raddol ac os byddwn yn parhau i golli contractau mae perygl na fyddwn yn goroesi. Rydym eisoes wedi gweld cynnydd mewn marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yn yr ardal. Mae angen i gomisiynwyr wrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Efallai wir fod contractau mawrion yn helpu i symleiddio prosesau anfonebu ond nid ydynt orau i bobl mewn angen.**

**Mags Lyons**
Uwch Weithiwr Prosiect Tyfu Pobl, Inroads

Elusen fechan oedd **Homestart Casnewydd** a oedd yn cefnogi teuluoedd lleol ond bu'n rhaid iddi gau pan ailgyfeiriwyd ei chyllid i ffwrdd oddi wrth grantiau a thuag at gontractau mawrion am ddarparu gwasanaethau. Cydnabu'r elusen fod angen iddi wneud newidiadau sefydliadol ond nid oedd yn gallu rhoi'r rhain ar waith cyn colli ei chyllid. Collodd teuluoedd lleol yng Nghasnewydd wasanaeth hanfodol yn ogystal â'r wybodaeth a'r arbenigedd yr oedd yr elusen hon wedi'u datblygu dros y blynyddoedd

**Mae angen i ni gymryd camau nawr i gefnogi elusennau bychain a lleol cyn iddynt ddiflannu.**

# Mae elusennau bychain a lleol yn chwarae rhan hanfodol yn eu cymuned ond mae angen eich cymorth chi arnynt nid yn unig i oroesi, ond i ffynnu.

# Darganfyddwch y tu mewn sut y gallwch chi gymryd camau heddiw.

---

**Mae Sefydliad Lloyds Bank a rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol) yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gefnogi elusennau bychain a sicrhau y clywir eu lleisiau.**

## Ynglŷn â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yw llais y sector gwirfoddol yng Nghymru, ac ynghyd â 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol – Cynghorau Gwirfoddol Sirol – mae'n ffurfio Cefnogi Trydydd Sector Cymru, rhwydwaith o fudiadau aelodaeth sy'n rhoi cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru.

## Ynglŷn â Sefydliad Lloyds Bank

Sefydliad Lloyds Bank Cymru a Lloegr yw un o roddwyr grantiau cymunedol mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig. Mae'n elusen gofrestredig annibynnol a ariennir gan elw Grŵp Bancio Lloyds fel rhan o ymrwymiad y Grŵp i Helpu Prydain i Ffynnu.

Mae'r Sefydliad yn buddsoddi mewn elusennau bychain a chanolig sy'n cefnogi pobl i dorri'n rhydd oddi wrth anfantais ar adegau tyngedfennol yn eu bywydau, ac yn hyrwyddo ffyrdd ymarferol o sicrhau newid parhaol.

Pentagon House
52-54 Southwark Street
London SE1 1UN

**Ffôn** 0870 411 1223

@LBFEW
/lloydsbankfoundation
enquiries@lloydsbankfoundation.org.uk
**www.lloydsbankfoundation.org.uk**

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant. Wedi'i Gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Rhif y Cwmni 1971242. Rhif Cofrestru'r Elusen 327114